# Eisteddfod yr Urdd – 2018

# Cystadleuaeth Y Fedal Gyfansoddi dan 25 oed (349)

BEIRNIADAETH MEIRION WYNN JONES

***Dwylo Bychain***

Mae pob cyfansoddwr yn gorfod dechrau ar ei daith yn rhywle. A dyma lle mae’r cyfansoddwr *Dwylo Bychain* ar y foment: yn cymryd y camau cyntaf yn y busnes o ysgrifennu syniadau cerddorol i lawr.

Yr her gyntaf i’r cerddor yma yw orgraff. Dydy sgôr *‘La Mer’* ddim yn gwneud synnwyr ar adegau, oherwydd diffyg gramadeg cerddorol. Os ydyn ni’n gosod darn o gerddoriaeth mewn cywair, yna mae’n rhaid i ni ysgrifennu pob nodyn yn ei ffurf gywir (ac nid yn ei ffurf *enharmonig*).

Yr ail her i *Ddwylo Bychain* yw i gyfansoddi cerddoriaeth byddai bod dynol yn medru chwarae, ac hefyd sy’n cynnwys nodau sy’n bodoli ar yr offeryn hwnnw. Mae cord cyntaf, *‘La Mer’* yn cynnwys nodyn sydd ddim i’w gael ar y piano.

Mae syniadau a chyffyrddiadau lliwgar yn ymddangos yma ac acw yn y gwaith, ond nid oes eto neges i’r darn. Gydag ymarfer, amser a phrofiad bydd *Dwylo Bychain* yn medru mynegi ei hun mewn ffordd glir a dealladwy.